



Awards Criteria:

Award	Criteria
Chwaraewr y Flwyddyn	Cyflwynir y wobwr hon i'r unigolyn sydd wedi rhagori yn eu camp ac sydd wedi gwella enw da chwaraeon yn Aberystwyth. Bydd e neu hi wedi cynrychioli ar lefel ranbarthol / genedlaethol neu wedi rhagori o fewn strwythur chwaraeon y brifysgol.
Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn	Cyflwynir i'r unigolyn sy'n dangos ysbryd positif wrth chwarae, dawn bersonol, hiwmor a brwdfrydedd ym mhob agwedd ar eu camp a'u cyfranogiad yng nghymuned Tîm Aber.
Tlws Gwyn Evans	Mae'r wobwr hon er cof am ddarlithydd Add.Gorff. a hyfforddwr clwb, er mwyn cydnabod ymroddiad personol, ymrwymiad ac agwedd iach a chanmoladwy at gyflawniad mewn chwaraeon. Dyma rywun sy'n ymgymryd â phob rôl o fewn y clwb, hyfforddwr, chwaraewr, cefnogwr
Tlws Mary Anne	Cyflwynir i rywun sydd wedi ymrwymo i redeg a gweinyddu clwb penodol. Dyma'r arwr tawel sy'n eistedd wrth ddesg yn anfon e-byst neu'n casglu arian.
Clwb y Flwyddyn	Clwb y Flwyddyn yw'r wobwr mae pawb yn eiddgar i'w hennill o fewn TîmAber. Caiff y wobwr hon ei chyflwyno i'r clwb mwyaf llwyddiannus, ymroddgar a gweithredol yn ystod y flwyddyn academaidd.
Y Clwb sydd wedi Gwella Fwyaf Eleni	Y meini prawf ar gyfer y wobwr hon yw gwelliant o ran llwyddiant, ysbryd a threfniant y clwb. Dylent hefyd ddangos ymroddiad i gynnal y cynnydd hwn ar gyfer y blynyddoedd i ddod.
Tîm BUCS y Flwyddyn	Y tîm sydd wedi cystadlu ar lefel eithriadol yn eu cystadleuaeth BUCS. Dyma'r tîm sydd wedi cynrychioli'r brifysgol yn dda ar lefel genedlaethol gan wella enw da Prifysgol Aberystwyth.

Tîm tu allan i BUCS y Flwyddyn

Y tîm sydd wedi cystadlu ar lefel eithriadol yn eu cystadleuaeth. Dyma'r tîm sydd wedi cynrychioli'r brifysgol yn dda gan wella enw da Prifysgol Aberystwyth.

Y Cyfraniad Mwyaf at RAG

Cyflwynir y wobr hon i aelodau'r tîm sydd wedi rhoi cryn lawer o'u hamser at achosion da gydol y flwyddyn / clwb sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at RAG gydol y flwyddyn.

Gwobr y Gymraeg

Dyfernir y wobr hon i'r clwb sydd wedi rhagori ar ddisgwyliadau'r Polisi Dwyieithrwydd ac sydd wedi: cynnwys argraffu dwyieithog ar ddillad swyddogol y clwb, mae eu holl ohebiaeth yn ddwyieithog, mae pwyllgor y clwb yn cynnwys Swyddog Iaith Gymraeg / Swyd.

Lliwiau'r Brifysgol: Chwaraeon (25)

Cyflwynir y wobr hon i fyfyrwyr unigol sydd wedi dangos ymroddiad eithriadol parhaus neu sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'w clwb, yn ogystal â dangos ymrwymiad i undeb y myfyrwyr a / neu chwaraeon myfyrwyr. Mewn amgylchiadau eithriadol, mae hefyd yn

Clod Arbennig

Gellir cyflwyno'r wobr hon os yw'r panel yn dewis gwneud hynny mewn cydnabyddiaeth o waith aelod o gymuned y Brifysgol sydd wedi cyfrannu at brofiad myfyrwyr, ond sydd ddim yn gweddu i un o'r categorïau eraill.